# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 22AIN HYDREF, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**Sionedmaijones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 14 Hydref 2024)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Eryl Jones-Williams
Louise Hughes
Rob Triggs

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Robert Williams | Cyngor Tref Abermaw |
| Dr John Smith | Clwb Hwylio Meirionnydd |
| Sedd Wag | Cymdeithas Pysgota Bae Ceredigion |
| Mark James | Cymdeithas y Bad Achub |
| Sedd Wag | Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw |
| Ashley Field | Ras Hwylio y Tri Copa |
| Robert Aeron Williams | Grŵp Gwella Cyrchfannau Abermaw |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Matthew Harris | |
| Ian Sadler | |
| Cynghorydd Brian Woolley | |
| Peter Appleton | |
| Stephen Tudor | Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Pwllheli |
| Desmond George | Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Aberdyfi |
| June Jones | Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2024/25

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2024/25

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiau o fuddiant personol.

**5. COFNODION** 4 - 8

I gadarnhau cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024.

**6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 9 - 19

I gyflwyno adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

I ystyried materion ar gais yr Aelodau.

**8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 25 Mawrth 2025.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 19/03/24

**Presenoldeb:**

**Aelodau:**
Cynghorydd Rob Triggs (Cadeirydd), Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-gadeirydd), Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Economi a Chymuned) ac Ashley Field (Ras Hwylio y Tri Copa).

**Swyddogion:**
Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Arthur F. Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Llŷr B. Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Kane Arran Triggs (Harbwrfeistr Cynorthwyol Abermaw) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Sylwedydd:** Desmond George (Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Aberdyfi).

Ar ddechrau'r cyfarfod rhoddwyd deyrnged i Mr Podmore a fu farw'n ddiweddar, gan nodi ei fod yn arfer bod yn aelod ffyddlon o'r Pwyllgor hwn. Roedd yn aelod o griw bad achub Abermaw a nodwyd ei fod wedi bod yn ran flaenllaw o'r gymuned â'r harbwr.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes, y Cynghorydd Robert Williams (Cyngor Tref Abermaw), Robert Aeron Williams (Grŵp Gwella Cyrchfannau Abermaw (BRIG)) a'r Cynghorydd June Jones (Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nododd y Cadeirydd, y Cynghorydd Rob Triggs, y bydd ei fab sy'n gweithio fel Harbwfeistr Cynorthwyol yn cyflwyno rhan o eitem 4, Adroddiad yr Harbwrfeistr yn absenoldeb yr Harbwrfeistr. Yn sgil hyn penderfynwyd y byddai'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Cadeirio'r rhan hon o'r eitem.
Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod.

**3. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023, fel rhai cywir.

**4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig sylwadau am eu cynnwys a gofyn cwestiynau.

**a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2024.**

Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

**Angorfeydd a Chofrestru Cychod**
Nodwyd y bydd yr Harbwrfeistr yn cynnal archwiliad o'r afon cyn cyfnod y Pasg i wirio lleoliad y cymhorthion mordwyo a phenderfynu ble i osod angorfeydd ymwelwyr yn yr harbwr.

Adroddwyd bod angen i gwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn yr harbwr neu gofrestru eu badau pŵer gwblhau'r broses ar lein drwy wefan Cyngor Gwynedd.

**Cod Diogelwch Morwrol Porthladdoedd**
Nodwyd bod y Cod Diogelwch Morwrol Porthladdoedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y gwasanaeth a'u bod yn parhau i gydymffurfio â'r Cod.

**Materion Staffio**
Adroddwyd bod yr Harbwrfeistr a'r Harbwrfeistr Cynorthwyol yn parhau i weithio o swyddfa harbwr Abermaw. Yn ychwanegol, mae'r gwasanaeth wedi penodi Nicola Salt fel Swyddog Traeth llawn amser; bydd y Swyddog Traeth wedi ei lleoli yn harbwr Abermaw ac yn gweithio ar yr arfordir rhwng Abermaw ac Aberdyfi. Nodwyd bod Math Roberts wedi ei benodi yn y Gogledd a bydd yn gweithio ar hyd yr arfordir yn ardal Porthmadog.

**Materion Ariannol**
Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol at y tabl yn yr adroddiad sy'n crynhoi'r sefyllfa ariannol ac wedi ei gategoreiddio i bump prif pennawd. Nodwyd bod y ffigyrau yn seiliedig ar adolygiad cyllidol a gafwyd efo'r cyfrifwyr ym mis Tachwedd ac yn proffwydo'r gwariant o Dachwedd tan ddiwedd Mawrth 2024.

Manylwyd ar y penawdau gan nodi bod y categori Gweithwyr yn ymgorffori cyflogau staff yn bennaf. Rhagwelir gorwariant o ychydig dros £3,500 yn y categori hwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Eglurwyd bod hyn yn bennaf oherwydd taliadau goramser i staff oedd wedi gorfod gweithio oriau ychwanegol o ganlyniad i faterion yn codi megis digwyddiadau brys.

Nodwyd bod y pennawd Eiddo yn ymwneud â chostau cyffredinol cynnal a chadw yr adeilad a'r tir o gwmpas yr harbwr. Manylwyd bod ychydig o orwariant yma. Cafwyd drysau newydd ar y storfa disel a ffenest newydd ar adeilad yr harbwr yn ogystal â chostau ychwanegol eraill. Nodwyd nad yw hyn yn anarferol o ystyried bod adeiladau yn mynd yn hŷn a bod angen eu cynnal.

Soniwyd am y pennawd Trafnidiaeth gan gadarnhau nad yw'r pennawd hwn yn cynnwys costau yn ymwneud a'r cerbyd morwrol. Cyfeiria'r pennawd yma yn benodol at gwch patrôl yr harbwr sef y Powercat a'r tanwydd i'r gwch; nodwyd bod tanwariant yma o £500.

Nodwyd bod gorwariant o bron £12,000 o dan y pennawd Gwasanaethau a Cyflenwadau oherwydd costau sylweddol yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r gwasanaeth brynu dau gymhorthydd mordwyo newydd ar gyfer yr harbwr. Yn ychwanegol bu i'r gwasanaeth orfod prynu goleuadau, offer a chadwyni i fynd efo'r ddau gymhorthydd mordwyo, yn ogystal a thalu contractwr i'w gosod.

Rhagwelir gwariant gwirioneddol o £8,194 o orwariant ar ôl tynnu cyfraniad o gronfeydd ac yr incwm. Nodwyd bod yr harbwr wedi casglu bron i £10,000 yn fwy na'r targed incwm a bod incwm ychwanegol wedi ei dderbyn o ganlyniad i waith ar y traphont. Adroddwyd bod staff yr harbwr wedi cydweithio efo contractwyr a bod ad-daliad o £7,500 wedi ei dderbyn ar ôl bilio'r cwmni am waith ac amser y staff. Nodwyd bod y gyllideb mwy neu lai yn hafal ar ôl ystyried yr ychwanegiad yma.

Adroddwyd bod cronfeydd hanesyddol yn bodoli o ganlyniad i godi ffioedd a chafwyd mynediad i rai o'r cronfeydd i wneud gwelliannau yn yr harbyrau. Amlygwyd bod yr arian wedi ei dalu i'r gronfa yn ystod y flwyddyn ac wedi cael ei ddefnyddio er mwyn cwrdd â chostau a gwneud buddsoddiadau yn yr harbwr. Soniwyd am dri phrif brosiect yn harbwr Abermaw sef y system newydd CCTV, gosod rhwystr trydan newydd ar waelod Ffordd y Compownd ac addasiadau o fewn adeilad yr harbwr i greu gofod swyddfa.

**Sylwadau**

Mynegwyd ei bod yn braf clywed am yr holl waith sy'n mynd ymlaen ac y bydd y gwaith yn fuddiol i ansawdd yr harbwr. Cytunwyd bod y gwaith yn hanfodol i reolaeth yr harbwr ac yn ased gwerthfawr i'r staff.

**Ffioedd a Thaliadau**
Nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol bod y ffioedd wedi cael eu hadolygu dechrau'r flwyddyn yn seiliedig ar y lefel chwyddiant gafodd ei sefydlu ar 7.5%. Nodwyd bod y ffioedd erbyn hyn wedi eu cadarnhau. Eglurwyd bod y system bellach yn system ar lein a bydd y system yn mynd yn fyw ar y 1af o Ebrill. Bydd ffioedd harbwr Abermaw yn cynyddu 0.5% yn uwch na lefel chwyddiant felly yn codi 8%. O ganlyniad bydd y targed incwm yn codi yn unol â chwyddiant am y flwyddyn i ddod. Ychwanegwyd bod cynnydd cyffredinol ym mhrisiau angorfeydd ac y disgwylir y bydd cyfnod prysur dros y Pasg. Bydd y gwasanaeth yn neilltuo angorfeydd ar gyfer y cwsmeriaid.

Soniwyd am y ffioedd lansio a chofrestru gan nodi bod rhai ffioedd wedi cynyddu. Adroddwyd bod y ffi cofrestru yn unig y flwyddyn diwethaf yn £60 a bydd yn codi i £70 eleni. Bydd y ffi blynyddol yn cynyddu o £170 i £180 a bydd y ffi lansio yn aros fel y mae gan ei fod eisoes wedi cynyddu'n sylweddol dros y dair mlynedd ddiwethaf.

Credwyd bod y ffioedd yn gystadleuol efo ffioedd Siroedd eraill ond bod y niferoedd sydd yn lansio a chofrestru yng Ngwynedd llawer uwch na Awdurdodau cyfagos. Cofrestrwyd 2509 o fadau pŵer flwyddyn diwethaf yng Ngwynedd o gymharu â thua 500 ym Môn. Mynegwyd ei fod yn wahaniaeth sylweddol a bod llawer o waith ynghlwm â'r system gofrestru, credwyd ei fod yn system effeithiol iawn.

**Sylwadau**
Mynegwyd gwerthfawrogiad i holl staff yr harbwr am eu gwaith dros gyfod yr Haf a credwyd bod y gyllideb, gydag ychydig o orwariant yn unig, yn dderbyniol ac yn ddealladwy.

**(b) Adroddiad yr Harbwr Feistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw.**

**Materion Mordwyo**
Cyfeiriodd yr Harbwrfeistr Cynorthwyol at y sianel fordwyo gan nodi ei fod heb symud llawer ers y flwyddyn diwethaf a'u bod yn parhau i gadw golwg ar y sianel gan ail-leoli unrhyw gymhorthion sydd ddim yn eu safle priodol.

Nodwyd bod dau hysbyseb lleol i forwyr a gobeithir bod y gwaith ar y draphont yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y mis fel y bydd yr hysbyseb yno yn medru cael ei ddiddymu. . Adroddwyd bod Bwi rhif 1 ddim yn ei safle priodol ac ers i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau adroddwyd bod dau Fwi arall ddim yn eu safleoedd ychwaith, sef Bwi rhif 4 a rhif 8. Nodwyd y bydd y contractwyr yn atgyweirio'r rhain cyn gynted ag y bo modd.

**Materion gweithredol**
Adroddwyd bod ychydig o waith peintio ar ôl i'w wneud ar gwch patrôl Abermaw gan nodi fod y gwaith i fod i gael ei orffen yr wythnos yma. Nodwyd bod ôl-gerbydau'r harbwr yn cael eu defnyddio yn aml a bod un ôl-gerbyd bach wedi cael ei ddadgomisiynu felly ddim yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Ychwanegwyd bod offer VHF newydd bellach yn y swyddfa er mwyn trafod efo cychod ar y dŵr a monitro'r harbwr.

**Cynnal a chadw**
Eglurwyd bod angen symud angorfeydd ymwelwyr am fod y banciau tywod wedi symud a'r llanw wedi mynd yn ddyfnach ar ochr Pwynt Penrhyn. Nodwyd y bydd y gwasanaeth yn parhau i rifo'r angorfeydd ac am barhau i dynnu angorfeydd segur o ddŵr yr harbwr.

Adroddwyd bod rhannau o'r pontŵn wedi eu tynnu allan o'r harbwr ar hyn o bryd ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol gan nodi mai'r Cyngor Tref sy'n delio efo'r gwaith yma yn bennaf.

**Materion Eraill**
Adroddwyd bod y gwasanaeth wedi gosod system CCTV newydd yn ddiweddar er mwyn gwella diogelwch yr harbwr ac i roi trosolwg o wal yr harbwr; nodwyd bod y system yma ar wahân i system y Cyngor Tref.

Nodwyd bod bolardiau parcio wedi cael eu gosod ar hyd Ffordd y Compownd ar gyfer diogelwch ac i atal parcio di-drefn ar hyd y ffordd. Bydd rhwystr trydan yn cael ei osod ar waelod Ffordd y Compownd er mwyn helpu gyda diogelwch.
O ran traeth y Friog, nodwyd bod bolardiau wedi cael eu gosod ar frig y ramp mynediad cyhoeddus at y traeth er mwyn stopio mynediad unrhyw gerbyd.

I gloi cyfeiriwyd at y Digwyddiadau sydd wedi eu nodi ar dudalen 14 o'r Rhaglen gan fynegi balchder bod llawer o ddigwyddiadau yn dod yn ôl i Abermaw eleni a phopeth i weld yn mynd yn dda o ran y trefniadau.

**Sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor**
Mynegwyd balchder fod popeth i weld yn mynd yn iawn o ran trefniadau rhedeg yr harbwr a diolchwyd i'r staff am eu gwaith. Diolchwyd i'r Harbwrfeistr Cynorthwyol am ei adroddiad ac i'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol am eu gwaith, ac am gwblhau'r gwaith o fewn cyllideb gytbwys. Diolchwyd i aelodau'r Pwyllgor gan nodi ei bod yn dda cael rhanddeiliaid sy'n cyfrannu ac ymgynghori.

Gofynnwyd a oedd bwriad rhoi'r bysedd yn ôl ar y pontŵn. Cadarnhaodd y Cadeirydd gan ei fod yn aelod o'r Cyngor Tref bod bwriad eu cyfuno i greu un bys yn hytrach na dau. Adroddwyd ei bod yn anodd cael fflotiau newydd a'u bod yn aros i'r gwneuthurwr ddod yn ôl atynt.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

**5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

**Hysbysfwrdd**
Roedd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol wedi derbyn cwestiwn gan Gynghorydd Arthog a Llangelynnin yn holi ynghylch y ddau hysbysfwrdd pren oedd yn arfer bodoli ar y llwybr troed yn y Friog. Gofynnwyd pam eu bod nhw wedi cael eu tynnu oddi ar y llwybr ac os oes bwriad i'w ailosod a phryd.

Nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol bod yr hysbysfyrddau wedi cael eu tynnu fel rhan o waith cynnal a chadw'r gwasanaeth. Eglurodd bod bwriad i'w peintio ond roedd y ddau yma wedi dirywio credwyd nad oedd pwrpas eu trwsio. Adroddwyd bod bwriad i greu rhai newydd a bod y cais wedi ei wneud ond fod y gwneuthurwr yn rhedeg yn hwyr. Ychwanegodd bod bwriad gwreiddiol i'w hailosod erbyn y Pasg ond bellach gobeithir y byddent yn ôl fyny yn eu safle priodol erbyn cyfnod Sulgwyn.

**Cwch yn y Friog**
Yr ail gwestiwn gan Gynghorydd Arthog a Llangelynnin oedd ynglŷn â llongddrylliad y cwch bach ym Mhwynt Penrhyn. Mynegwyd pryder bod y cwch yn parhau i fod yno er gwaethaf amryw o gwynion. Gofynnwyd a oedd bwriad i gael gwared ohoni.

Ategodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol fod y sefyllfa yma yn parhau ers tro a bod y gwasanaeth wedi bod yn cyfathrebu gyda pherchennog y cwch. Nodwyd bod y gwasanaeth wedi rhoi amryw o gyfleoedd i'r perchennog wneud trefniadau i symud y cwch, ond yn anffodus

nid oedd y perchennog wedi cymryd y camau priodol. Derbyniwyd bod yr Aelod Lleol yn cael cwynion a bod y sefyllfa ynghylch y gwch ‘Lady Anne’ yn rhwystredig gan ei bod yn edrych yn flêr iawn ar y safle. Er nad oedd llygredd i’r dŵr, cydnabuwyd bod llawer o sylwadau negyddol wedi ei derbyn amdani.

Adroddwyd fod staff yr harbwr wedi rhoi rhybudd ar y cwch ers diwedd wythnos diwethaf a bod y gwasanaeth efo’r pwerau i symud y cwch o dan y ddeddf berthnasol. Eglurwyd bod gan y perchennog 30 diwrnod i wneud trefniadau i symud y cwch, fel arall bydd yr awdurdod harbwr yn gwneud trefniadau gyda chontractwr lleol i’w symud. Nodwyd bod costau sylweddol ynghlwm a hyn ond gobeithir cael ad-daliad yn ôl gan berchennog y cwch maes o law.

Gofynnwyd i staff yr harbwr adael i aelodau’r Pwyllgor wybod pe bai diweddariad ac os bydd rhaid defnyddio contractwr. Credwyd bod gan y Cyngor y pwerau cyfreithiol i gael yr ad-daliad pe bai angen. Gofynnwyd i’r gwasanaeth ddiweddaru’r Cadeirydd a’i bod yn bwysig rhannu unrhyw ddatblygiad.

**Aelodaeth**
Nodwyd na fydd yr Aelod Cyfetholedig John Johnson yn cynrychioli Cymdeithas Pysgota Bae Ceredigion ar y Pwyllgor bellach. Yn ychwanegol ni fydd yr Aelod Cyfetholedig Martin Parouty yn parhau ar y Pwyllgor ychwaith am ei fod wedi gadael Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw, sydd ers hynny wedi dod i ben. Credwyd bod angen sgwrs am sut i wella niferoedd y Pwyllgor. Cytunwyd i’r Cadeirydd, fel yr Aelod Lleol, gael trafodaeth efo’r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol a’r Uwch Swyddog Harbyrau gan fod rhai o aelodau hanesyddol y Pwyllgor bellach wedi gadael. Cydnabuwyd bod angen cynrychiolaeth fwy cynhwysfawr ar y Pwyllgor at ei gyfarfod nesaf yn yr Hydref. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai yn holi o gwmpas grwpiau lleol i weld pwy sydd â diddordeb.

Gwnaethpwyd cais i gynnwys y cwestiynau gan aelodau yn yr Agenda; credodd aelod o’r Pwyllgor mai hyn oedd yn arfer digwydd yn y gorffennol. Derbyniwyd y pwynt gan y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol, eglurodd bod y cwestiynau weithiau yn cyrraedd yn hwyr neu ar ôl i’r adroddiadau gael eu paratoi a’u cyfieithu. Ychwanegodd os fydd y cwestiynau yn cael eu derbyn mewn da bryd ei fod yn fwy na hapus i’w cynnwys yn Agenda’r cyfarfod nesa.

**6. CYFARFOD NESAF**

22 Hydref 2024.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:45pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **22 Hydref 2024** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad cryno i sylw'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2024 i Hydref 2024, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.**

2.1 Mae 77 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Abermaw yn 2024. Mae hyn yn cymharu â 71 o gychod ar angorfeydd yn 2023.

2.2 Fel y llynedd, bu cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn harbwr Abermaw. Y gobaith yw y bydd y duedd hon yn parhau yn 2025.

2.3 Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd sy'n dymuno cofrestru eu badau dŵr pŵer i'w defnyddio ar hyd arfordir Gwynedd bellach yn gwneud hynny ar-lein, drwy wefan Cyngor Gwynedd. Y tymor hwn fe gofrestrodd 1013 o gychod pŵer a 1044 o fadau dŵr personol. Yn ychwanegol i'r ffigyrau hyn, cofrestrwyd 84 cwch gydag injan o dan 10 hp hefyd, sy'n rhoi cyfanswm o 2141 o gofrestriadau ar gyfer y tymor.

2.4 Mae'r nifer hwn o gofrestriadau cychod yn llai na'r llynedd pan gofrestrwyd cyfanswm o 2509 o fadau dŵr. Mae'n ddigon posibl bod y tywydd byrhoedlog a welsom eleni, ynghyd â'r hinsawdd ariannol bresennol, wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y cofrestriadau cychod y tymor hwn.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn yr amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan ystod eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo,

addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Abermaw.

**4. Materion Staffio.**

Mae'r lefel staffio yn harbwr Abermaw wedi aros heb newid ers yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor. Cefnogir yr Harbwrfeistr, Mr Daniel Cartwright, yn ei waith gan yr harbwrfeistr cynorthwyol, Mr Kane Triggs. Er gwaethaf y tywydd gwael, mae staff yr harbwr wedi bod yn brysur dros gyfnod yr haf. Pan a phryd bo'r angen, mae'r staff hefyd wedi cynorthwyo staff sy'n gweithio ar y traeth yn Abermaw.

4.1 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gallu galw ar staff sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Porthmadog ac Aberdyfi i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Abermaw os oes angen.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd.
- Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr.
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor.
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr Harbwr, gan gynnwys buddsoddi i gynnal a chadw'r cwch i gwrdd â gofynion y Cod Ymarfer.
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau.

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2025/26.**

O ran y darpar ffioedd a thaliadau ar gyfer Harbwr Abermaw ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar gyfer tymor 2025/2026, ar achlysuron blaenorol mae'r Gwasanaeth wedi addasu ffioedd yn unol â'r gyfradd chwyddiant gyffredinol ar y pryd. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd yr Harbwrfeistr yn Abermaw yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2024 a mis Hydref 2024 yn gynhwysol, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| **DYDDIAD** | 22 Hydref 2024 |
| **TEITL** | Adroddiad yr Harbwrfeistr |
| **AWDUR** | D.A Cartwright. Harbwrfeistr |

## H1 Materion Mordwyo

1.1 Mae cwrs y brif sianel fordwyo i'r harbwr wedi parhau'n gymharol gyson dros gyfnod yr haf. O ganlyniad, nid oedd angen symud unrhyw un o'r marciau mordwyo. Bydd staff yr Harbwr yn parhau i fonitro symudiad y traethellau yn nyfroedd y sianel a lleoliad y cymorthyddion mordwyo fel bo'r angen, i ddarparu'r llwybr mwyaf diogel i mewn ac allan o'r harbwr.

1.2 Gwelwyd newid amlwg yn y sianel eilaidd sy'n arwain at wal cei'r harbwr o'r morglawdd, sydd wedi cael ei effeithio gan dywod sy'n cael ei chwythu yn y gwynt. Mae hyn wedi peri i silt gronni yn yr ardal honno, gan greu anawsterau i gychod sy'n dynesu ac yn gadael wal yr harbwr ar lanw isel.

1.2.1 I sicrhau diogelwch cychod, mae staff yr harbwr yn gofyn i forwyr sy'n dymuno angori ar hyd wal y cei, gysylltu â swyddfa'r harbwr cyn dynesu.

1.3 Ar ôl gwneud gwaith estynedig ar bont y rheilffordd sy'n ymestyn dros yr aber, bellach mae'r mynediad modrwyo o dan y bont yn ddirwystr.

1.4 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym yn Harbwr Abermaw, gyda'r holl gymorthyddion mordwyo yn eu lle ac yn gwbl weithredol.

1.5 Mae disgwyl i arolygydd o Dŷ'r Drindod, yr Awdurdod Goleudai ar gyfer yr ardal, gynnal archwiliad o'r cymorthyddion mordwyo yn Harbwr Abermaw yn ystod mis Hydref. Ar ôl archwiliad, bydd adroddiad yn cael ei dderbyn, a byddwn yn rhannu canlyniad hwnnw gyda'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

1.6 Mae'r Gwasanaeth yn dymuno atgoffa morwyr o'r angen i gynnal 'radio watch' ar VHF Channel 12 yn ystod eu harhosiad yn Harbwr Abermaw. Hefyd, dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn gadael neu gyrraedd yr harbwr er mwyn cael y wybodaeth fordwyo a thywydd ddiweddaraf.

## H2 Materion Gweithredol

2.1 Arweiniodd tywydd annhymhorol gyda'r nos ar 29 Medi, at suddo dau gwch ar yr angorfeydd trot bychan yn yr harbwr. Cafodd trydydd cwch ei drochi gan y tonnau ger Bwi starboard hand Rhif 3 ac fe ddaeth cwch hwylio oedd wedi'i leoli ar yr angorfeydd trot ger swyddfa'r harbwr, yn rhydd o'i angorfa.

2.1.1 Dychwelodd staff yr harbwr ar ddyletswydd i ddarparu hynny o gymorth ac y gallasant ar y noson, ac fe wnaethant lwyddo i ddiogelu'r cwch hwylio ar draeth y Bathhouse. Ers hynny, mae'r holl gychod a gafodd eu heffeithio ar y noson wedi eu hadfer.

2.2 Cafodd cwch patrôl 'Powercat' yr harbwr ei defnyddio'n helaeth drwy dymor yr haf. Mae staff yr harbwr ar y cwch wedi darparu cymorth a chyngor i forwyr lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd, gan ddefnyddio'r dyfroedd y gellir eu mordwyo yn yr harbwr.

2.2.1 Y tymor hwn, mae'r harbwr wedi gweld hanner cant (50) o gychod ymweld yn defnyddio'r angorfeydd ym mherchnogaeth y Cyngor o fewn yr harbwr. Mae staff yr harbwr wedi derbyn nifer o sylwadau positif ynghylch natur olygfaol yr harbwr gan yr ymwelwyr yma. Gobeithio y bydd y tymor nesaf yr un mor llwyddiannus i ddenu cychod ymweld i'r harbwr.

2.3 Mae gwaith wedi cael ei wneud gan adran Eiddo Cyngor Gwynedd i atal dŵr rhag cael mynediad yn ochr adeilad swyddfa'r harbwr. Yn ystod y gwaith, cymerodd y Gwasanaeth gyfle i amnewid yr erial VHF sydd ar y simnai, sydd bellach yn darparu gwell gwasanaeth y tu hwnt i'r harbwr.

2.4 Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn cerbyd ATV, i'w ddefnyddio ar y prif draeth a thraeth y Bathhouse. Mae'r cerbyd yn ddefnyddiol wrth yrru ar dywod meddal ac fe ellir ei yrru'n rhwydd ar draethau prysur yn ystod misoedd yr haf. Hefyd, bydd y cerbyd yn benodol ddefnyddiol i staff yr harbwr wrth ymdrin â charcysau anifeiliaid.

## H3 Cynnal a chadw

3.1 Cyn i dymor yr haf ddechrau, cafodd injans a chwch patrôl Powercat yr harbwr eu gwasanaeth blynyddol. Gwnaed y gwaith gan beiriannydd morol lleol. Aeth staff yr harbwr ati i wneud gwaith cynnal a chadw pellach ar y cwch, gan wneud gwaith 'anti-fouling' ar gragen y cwch a chynnal gwiriadau ar offer y cwch.

3.2 Bydd marc dŵr diogel y Bwi Fairway, ynghyd â'r cymorthyddion mordwyo 'port-hand' rhifau 4, 6 a 10, yn cael gwasanaeth blynyddol dros y gaeaf. Bydd contractwr morol lleol yn gwneud y gwaith. Mae Bwi Fairway i'w osod yn ei le eisoes wedi'i baratoi gan staff yr harbwr, ac mae'n barod i gael ei ddefnyddio, yn amodol ar brynu offer angori newydd.

3.3 Mae staff yr harbwr yn parhau i rifo'r bwiau angori sydd wedi'u lleoli yn nyfroedd yr harbwr, er mwyn ei gwneud yn haws i gwsmeriaid eu hadnabod. Mae angorfeydd cwsmeriaid yn yr harbwr wedi cynyddu yn ystod y tymor hwn. Mae'r gofod sydd ar gael ar gyfer angorfeydd yn mynd yn raddol gyfyngedig, gydag ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i'r dyfnder dŵr sydd ar gael yn yr harbwr, a maint a math y cwch sy'n gwneud cais am angorfa.

3.4 Mae'r trelar tipio sy'n cael ei ddefnyddio gan staff yr harbwr wedi cael gwasanaeth blynyddol gan adran fflyd Cyngor Gwynedd. Mae'r trelar wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth i gynorthwyo gyda'r gwaith o glirio deunyddiau gwastraff o gompownd yr harbwr a'i gludo i'r ganolfan ailgylchu agosaf.

3.5 Mae staff yr harbwr yn mynd ati bob wythnos i archwilio a chynnal a chadw amgylchedd yr harbwr. Mae eitemau sydd angen sylw brys yn cael sylw cyflym, ac mae'r eitemau lle nad oes brys i'w gwneud yn cael eu hychwanegu at raglen waith y gaeaf.

## H4 Materion Eraill

4.1 **Ffordd y Compownd**: Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn rhwystr traffig awtomatig wedi'i leoli yn y fynedfa i Ffordd y Compownd, i atal parcio di-hid gan bersonau anawdurdodedig. Mae'r rhwystr bellach yn gwbl weithredol. Mae

gweithredwyr masnachol yn nyfroedd yr harbwr a defnyddwyr y compownd wedi cael ffob, sy'n rhoi mynediad iddynt i'r safle.

4.2 **Diogelwch yr Harbwr:** Mae system Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) o amgylch yr harbwr wedi cael ei huwchraddio a'i gwella i ddarparu gwasanaeth diogelwch ychwanegol. Bellach gall staff yr harbwr gael trosolwg gwych o ardal yr harbwr, wrth fynd ati i wneud dyletswyddau yn y swyddfa. Mae'r system sydd wedi'i gosod hefyd yn cynnwys cyfleuster recordio yn ystod y cyfnod pan fo swyddfa'r harbwr ar gau.

4.3 **Pontŵn yr Harbwr;** Mae gwaith yn parhau ar adnewyddu pontŵn yr harbwr, ac am y tro mae'n parhau i fod allan o'r dŵr ar ffrynt yr harbwr. Mae'r pontŵn yn ased gwych i'r harbwr, ac mae'r Gwasanaeth yn obeithiol y bydd yn cael ei ddychwelyd i'w leoliad ger wal yr harbwr mewn pryd ar gyfer dechrau'r tymor prysur y flwyddyn nesaf.

4.3.1 Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i Gyngor y Dref am eu hymrwymiad a'r gefnogaeth ariannol barhaus ar gyfer pontŵn yr harbwr.

4.4 **Fairbourne** Mae cyflwyno'r fynedfa llithrfa newydd ar draeth Fairbourne y llynedd wedi arwain at adborth hynod bositif ac fe gariodd hyn ymlaen y tymor hwn. Mae'r fynedfa llithrfa am gael ei hail-raddio cyn cyfnod y gaeaf er mwyn adfer yr amddiffynfa môr.

4.5 **Trwyn Penrhyn.** Mae'r Gwasanaeth yn cynghori ei fod wedi gweithredu ei bwerau dan Adran 56 yr *Harbours, Docks and Piers Clauses Act 1847*, i waredu cwch sydd wedi suddo o ddyfroedd yr harbwr, oedd wedi'i lleoli ger trwyn Fairbourne.

## 5. Digwyddiadau

5.1 Gwelwyd blwyddyn lwyddiannus o ddigwyddiadau yn harbwr Abermaw, wedi'u trefnu gan y Cyngor lleol a sefydliadau preifat eraill. Dymunai'r Gwasanaeth ddiolch i bawb oedd ynghlwm am eu holl waith caled a'u cydweithrediad. Roedd y digwyddiadau isod ymysg y rhai gafodd eu cynnal yn yr harbwr eleni:


- Gŵyl/Carnifal Abermaw
- Gŵyl Fwyd Abermaw
- Gŵyl Farcud
- Ras 10k
- Digwyddiad Hwrli Bwrli
- Gŵyl Gerdded
- Digwyddiad Sea2Sky Ultra

Ymysg y digwyddiadau sydd heb eu cynnal eto mae digwyddiad *motorcross* ac arddangosfa tân gwyllt sydd i'w cynnal ar y traeth.


5.2 Dymuna'r Gwasanaeth hysbysu trefnwyr digwyddiadau arfaethedig o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw i swyddfa'r harbwr. Bwriad hyn yw sicrhau bod modd asesu'r holl brotocolau diogelwch a phrosesau gweinyddol cyn unrhyw ddigwyddiad. Ni chaniateir cynnal digwyddiadau oni bai bod caniatâd ysgrifenedig y Gwasanaeth wedi'i dderbyn.

| HARBWR ABERMAW | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2024 at 31 Mawrth 2025 - Adolygiad Awst 2024 | | |
|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/24 at 31/3/25 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/24 at 31/3/25 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | 72,790 | 73,871 | 1,081 |
| | | | |
| Eiddo | 12,730 | 13,108 | 378 |
| | | | |
| Trafnidiaeth | 950 | 979 | 29 |
| | | | |
| Gwasanaethau a Cyflenwadau | 11,770 | 18,738 | 6,968 |
| | | | |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | | 11,938 | 11,938 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | 98,240 | 118,634 | 20,394 |
| | | | |
| Incwm | (40,730) | (42,629) | (1,899) |
| Cyfraniad o Cronfeydd Tuag at Wariant Un Tro | 0 | (11,938) | (11,938) |
| | | | |
| **Cyfanswm Net** | **57,510** | **64,067** | **6,557** |


# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned





Cynyddodd y nifer cwsmeriaid gyda chytundeb angori 6.5% yn ein harbyrau o'i gymharu ar flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 250 i 266. Mae'r wasgfa ariannol yn golygu fod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, fod y gost yn is. Mae rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Covid. Mae trefn ceisio am angorfa ar lein yn weithredol ers Ebrill 2023. Mae nifer o gwsmeriaid cychod pŵer hefyd wedi penderfynu cael angorfa yn lle lansio'n ddyddiol, sydd wedi cyfrannu at gadw nifer angorfeydd yn weddol sefydlog. Rydym hefyd wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd.




Roedd 86% o'r ymatebwyr o'r farn bod eu profiad o'r harbyrau yn 'Dda Iawn' (81%) neu'n 'Dda' (5%) sydd 23% yn uwch na'r ganran ar gyfer y cyfnod blaenorol. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol am broffesiynoldeb ac agwedd ein swyddogion, gyda rhai yn datgan fod y swyddogion yn "wybodus" ac "wedi mynd allan o'u ffordd i helpu".





Ni chafodd unrhyw gymhorthion mordwyo eu difrodi neu'u colli yn ystod misoedd y gaeaf, er bod nifer ohonynt wedi gorfod cael eu hail-leoli wrth i sianeli mordwyo symud.




Roedd 76% o'r ymatebwyr o'r farn fod eu profiad o draethau Gwynedd yn 'Dda Iawn' (58%) neu'n Dda (18%), sydd 16% yn is na'r ganran am y cyfnod blaenorol. Roedd llawer o'r farn fod y traethau'n ddiogel a glân, fod staff yn gyfeillgar a chymwynasgar a bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith. Roedd rhai yn meddwl fod baw ci, cŵn afreolus a biniau gorlawn yn broblem mewn rhai safleoedd.

# Harbwr Abermaw/Barmouth Harbour

## Hydref/October 2024




| | | | |
|---|---|---|---|
| FAIRWAY BUOY | 52°42.796N | 004°04.906W | LFl.10sec |
| No1 STARBOARD BUOY | 52°42.897N | 004°04.382W | Qk Fl G |
| No2 PORTHAND BUOY | 52°42.866N | 004°04.355W | Fl R 2sec |
| No4 PORTHAND BUOY | 52°42.690N | 004°04.165W | 2L FlR 7sec |
| No6 PORTHAND BUOY | 52°42.857N | 004°04.331W | Qk Fl R |
| No8 PORTHAND BUOY | 52°42.767N | 004°03.760W | Fl (3) R 10sec |
| SOUTH CARDINAL PERCH | 52°42.822N | 004°03.720W | Q(6) + Lf(1) 15sec |
| No10 PORTHAND BUOY | 52°42.908N | 004°03.308W | L Fl R (4) 15sec |
| BREAKWATER PORTHAND | 52°42.989N | 004°03.127W | Fl R (5) 5sec |
| No3 STARBOARD BUOY | 52°43.013N | 004°03.082W | Fl G 1.5sec |



This illustration is intended as a guide only and not to be used for navigation. All positions are given as approximate. The Aids to Navigation may be moved without prior notice. Mariners are advised to contact the Harbour Masters Office for the latest navigational information.

Tel: 01341 280 671 / 07795012747

Email: danielarthurcartwright@gwynedd.llyw.cymru